OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 802

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002

### Trefniadau i swyddogaethau awdurdod lleol gael eu cyflawni gan weithrediaeth awdurdod lleol arall

**8.**—(1) Caiff awdurdod lleol wneud trefniadau gydag awdurdod lleol arall i weithrediaeth yr awdurdod lleol arall hwnnw gyflawni unrhyw swyddogaethau i'r awdurdod cyntaf a grybwyllwyd nad ydynt yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod hwnnw—

(a) os nad yw'r swyddogaethau yn swyddogaethau i'r awdurdod lleol arall hwnnw; neu

(b) os yw'r swyddogaethau yn swyddogaethau i'r awdurdod lleol arall hwnnw ac yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod arall hwnnw.

(2) Nid yw unrhyw drefniadau a wneir o dan y rheoliad hwn i atal yr awdurdod a wnaeth y trefniadau rhag arfer y swyddogaethau y maent yn ymwneud â hwy.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 8 mewn grym ar 1.4.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002, Adran 8.